

Cyngor Cymuned Llandybie

Polisi Hyfforddiant a Datblygu

Datganiad Polisi

Mae gan Gyngor Cymuned Llandybie ymroddiad i ddarparu hyfforddiant digonol sydd wedi'u nodi ar gyfer Cynghorwyr ac aelodau staff er mwyn sicrhau fod Cyngor yn medru darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol ar gyfer y Gymuned. Bydd Cyngor yn datblygu diwylliant o ddatblygiad proffesiynol parhaol.

Nod y Polisi

Bydd Cyngor Cymuned Llandybie yn sicrhau cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaol ar gyfer Cynghorwyr a staff. Bydd y polisi yn sicrhau fod gan Gyngor aelodau a staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda er mwyn sicrhau ymarferiad da yn weithredoedd y Cyngor.

Manylion y Polisi

1. Bydd Cyngor yn cytuno cyllideb hyfforddiant digonol er mwyn cwrdd ei amcanion hyfforddiant.
2. Bydd Cyngor yn ystyried gofynion hyfforddiant Cynghorwyr a staff yn flynyddol. Bydd hyn yn cysylltu gydag amcanion y Cyngor.
3. Bydd y Cyngor yn annog Cynghorwyr a staff i fynychu hyfforddiant a bydd yn talu costau sydd yn codi trwy fynychu digwyddiadau hyfforddiant sydd wedi'u gytuno.
4. Bydd y Cyngor yn annog Cynghorwyr i fynychu hyfforddiant cod ymddygiad o leiaf un waith yn pob tymor etholedig a bydd yn talu costau sydd yn codi trwy fynychu digwyddiadau hyfforddiant sydd wedi'u gytuno.
5. Bydd Cyngor yn ystyried gofynion hyfforddiant Cynghorwyr neu staff newydd yn dilyn ei etholiad, cyfetholiad neu gyflogaeth.
6. Bydd Cyngor yn ystyried rhaglenni hyfforddiant darparwyd gan Un Llais Cymru neu eraill fel yn briodol.
7. Bydd Cyngor yn cysylltu gyda neu / ac yn trefnu digwyddiadau hyfforddiant gyda Chynghorau arall ble yn briodol.
8. Bydd Cyngor yn derbyn adroddiad ar hyfforddiant derbyniwyd gan Gynghorwyr neu staff, bydd yr hyfforddiant yn cael ei rhaedru fel yn briodol.
9. Bydd Cyngor yn cynnwys manylion o ymroddiad y Cyngor i hyfforddiant yn contractau cyflogaeth.
10. Bydd y Clerc yn cael ei annog i gynnal aelodaeth o'r Society of Local Council Clerks gyda'r Cyngor yn talu'r tanysgrifiad.
11. Bydd Cyngor yn cadw cofnodion o'r hyfforddiant derbyniwyd gan Gynghorwyr a staff.
12. Mae gan Gynghorwyr ac aelodau staff cyfrifoldeb personol i ymgymryd yn gadarnhaol i gyfleoedd datblygiad proffesiynol er mwyn cefnogi gweithgareddau'r Cyngor.

13. Bydd Cyngor yn adolygu'r polisi hyfforddiant o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn effeithiol.

14. Bydd y Cyngor yn parhau i hyrwyddo bod pob cwrs hyfforddi ar gael yn ddwyieithog gan bob darparwr hyfforddiant.

Adolygwyd gan y Pwyllgor Polisiâu ar 1af Chwefror 2022 a chadarnhawyd gan y Cyngor Llawn ar 23ain Chwefror, 2022

.....

Cadeirydd

.....

Clerc